Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 05.04.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## RECRIWTIO: Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd Dolgellau 12 Mai 2022

Bydd menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd – mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – yn cynnal ffair swyddi ar gyfer pob sector yng Nghanolfan Hamdden Byw'n Iach Glan Wnion, Dolgellau, ar 12 Mai 2022 (10:00am-2:00pm).

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Mae ffeiriau hefyd yn cael eu cynllunio ar gyfer Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Thywyn. Yn y cyfamser gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

## DIGWYDDIAD: Sut Gall Marchnata Roi Hwb

## i’ch Busnes? 27 Ebrill 2022

> Cynhelir digwyddiad brandio, marchnata, cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithio ar gampws Grŵp Llandrillo Menai yn Nolgellau ar 27 Ebrill 2022. Bydd y digwyddiad yn cynnwys gweithdai yn ogystal â ffair fusnes fechan gydag amrywiaeth o wasanaethau cefnogi busnes ar gael i ateb cwestiynau a chynnig cyngor. Am fwy o wybodaeth, ewch i:
>
> https://bit.ly/3uVukQT
>
> Neu cysylltwch ar: 08445 460460 / busnes@gllm.ac.uk

## TRETH: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022/23

> Mae’r rhyddhad yma ar gael ar gyfer y flwyddyn treth 2022/23 i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch ac yn ychwanegol i’r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Gall y cynllun gynnig gostyngiad o 50% hyd at £110,000 i fusnesau cymwys – bydd angen cwblhau ffurflen gais syml, sydd ar gael yma:
>
> https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/HunanwasanaethGweFfurflenni/cy/CynllunRhyddhadArdrethi/Index
>
> Mae manylion pellach ar gael o:
>
> https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Arian,-cyllid-a-grantiau/Trethi-annomestig/Gostyngiadau-rhyddhad-ac-eiddo-gwag.aspx

## AROLWG: Busnesau llety – Arolwg STEAM Gwynedd 2021 yn cau 8 Ebrill 2022

> Gofynnir i fusnesau llety gwblhau Arolwg STEAM Gwynedd 2021 cyn 8 Ebrill 2022. Mae’r arolwg yn bwriadu cael darlun cywir a chyflawn o nifer yr ymwelwyr, a chyfrifo gwerth twristiaeth i

> Wynedd yn 2021. Mae'r canlyniadau yn helpu i benderfynu faint o arian bydd Gwynedd yn ei dderbyn tuag at y gost o wasanaethu mwy o bobl. Cymerwch ran, os gwelwch yn dda, trwy fynd i:
>
> https://bit.ly/ArolwgSTEAMGwynedd2021

## DIGWYDDIAD: Cyfleoedd Busnes Dadgomisynu Niwclear yn Gogledd Cymru 7 Ebrill 2022

> Cynhelir digwyddiad mewn person yn M-SParc yng Ngaerwen, ar 7 Ebrill 2022 (3:00pm-6:00pm), i amlinellu sut y gall busnesau peirianneg, adeiladu, trydanol a rheoli gwastraff lleol fanteisio ar y biliynau sydd i'w gwario yn y blynyddoedd i ddod i ddatgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear gan gynnwys Trawsfynydd a'r Wylfa. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:
>
> https://bit.ly/36FDqJC

## CYFLOGAETH: Prentisiaethau adeiladu yng Nghymru yn newid

> O fis Medi 2022 ymlaen, bydd prentisiaethau adeiladu yng Nghymru yn wahanol a bydd gan gyflogwyr rôl ehangach o ran eu darparu. Mae CITB (Construction Industry Training Board) yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys City and Guilds, i baratoi cyflogwyr yng Nghymru ar gyfer y newidiadau hyn a sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan CITB ar:
>
> https://www.citb.co.uk/cy-gb/cyrsiau-a-chymwysterau/prentisiaethau-citb/cyflogi-prentis/canfod-prentis/cyflogi-prentis-yng-nghymru/

## CYFLOGAETH: Cyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog

## Cenedlaethol ar gyfer 2022

> O 1 Ebrill 2022 bydd cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Ar gyfer gwybodaeth am y cyfraddau newydd, ewch i:
>
> https://www.gov.uk/cyfraddau-isafswm-cyflog-cenedlaethol

## TRETH: Paratoi ar gyfer yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol

> Mae CThEM wedi cyhoeddi canllawiau ar baratoi ar gyfer yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol – gan gynnwys neges newydd i'w chynnwys ar slipiau cyflog. Bydd yr Ardoll yn cynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol i'r rhan fwyaf o weithwyr 1.25% o 6 Ebrill 2022. Mae'r canllawiau ar gael ar:
>
> https://www.gov.uk/guidance/prepare-for-the-health-and-social-care-levy.cy

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

> https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
> https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

> https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
> https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

> https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
> https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

> https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
> https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

> https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

> https://twitter.com/croesocymrubus
>
> Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
> https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru